WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Sian Davies
Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd y Cyngor
Heol y Barri
CF63 4RU

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 15 Ionawr 2013 |
| **Ein cyfeirnod** | 109A2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **5** |

Annwyl Sian

## Llythyr Archwilio Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm gwaith mewn perthynas â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 11 Medi 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer cynnal hunanwerthusiad effeithiol; a
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Cafodd fy safbwyntiau eu llywio gan y canlynol:

- adolygiad o Gynllun Gwella'r Cyngor 2012/13 (y Cynllun);
- archwiliad o sampl o Ddangosyddion Perfformiad y Cyngor;
- adolygu'r tri chynllun peilot ar gyfer Gwasanaethau Gweladwy, Cysylltiadau Cwsmeriaid a Diogelu'r Cyhoedd;
- cyfweliadau â Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau;
- arsylwi ar y gweithdy 'Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid' ar gyfer creu cynllun gwasanaeth 2013/14; ac
- adolygu cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor craffu.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur

Wrth gyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref 2012, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur.

Yn unol â chanllawiau'r Mesur, mae'r cyhoeddiad yn adrodd ar berfformiad fel y'i mesurir gan bob dangosydd perfformiad statudol, waeth a ydynt yn cysylltu'n uniongyrchol ag amcanion gwella ai peidio.

### Mae lle i'r Cyngor gydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Gellid datblygu elfennau o'r dull a ddefnyddiwyd er mwyn adlewyrchu'r canllawiau, er enghraifft:

- Nid yw'r asesiad o berfformiad yn rhoi digon o eglurhad sut y gwerthusodd y Cyngor ei berfformiad, er enghraifft drwy gyfrwng adolygiadau gan gymheiriaid, asesiadau craffu neu feincnodi.
- Dangosyddion perfformiad yw'r prif ddull o fesur cyflawniad a ddefnyddir yn y Cynllun, ond rydym yn ymwybodol fod dulliau eraill yn cael eu defnyddio a'u datblygu gan y Cyngor. Byddai cyfeirio at ystod ehangach o dystiolaeth yn y dyfodol yn rhoi darlun mwy cyflawn o ansawdd gwasanaethau a phrofiadau defnyddwyr.
- Mae'r Cyngor wedi cynnwys asesiad o berfformiad yr awdurdod dros amser ond heb ei fesur yn erbyn cyrff eraill cymharol.
- Mae'r Cyngor wedi manylu ar faint o gydweithio a fu yn ystod y flwyddyn, ond gellid gwella hyn drwy gynnwys manylion ynglŷn ag a gyflawnodd gweithgarwch ar y cyd y canlyniadau a fwriadwyd ac a oedd y cydweithio'n cefnogi cyflawniad yr amcanion gwella.

### Mae'r Cyngor yn gwella'i drefniadau adrodd ar berfformiad drwy ddatblygu mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ond roedd y wybodaeth a oedd ar gael ar gyfer 2011-12 yn golygu na allai'r Cynllun ddarparu darlun llawn o berfformiad ac mae lle i wneud y Cynllun yn fwy hygyrch

### Mae mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu datblygu

Mae'r trefniadau adrodd ar berfformiad yn gwella. Mae'n amlwg fod y Cyngor wedi deall y materion yr oedd angen iddo fynd i'r afael â nhw ac mae wrthi'n ymdrin â'r materion hynny. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnig ar gyfer gwella yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2012-13, sef "parhau â'r gwaith o ddatblygu mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau", drwy symud o drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddangosyddion perfformiad ac ar gwblhau cam gweithredu, neu fethu â gwneud hynny, a sicrhau:

- y caiff y bwriad ei fynegi mewn ffordd sy'n sicrhau y gellir mesur cynnydd; a

- bod trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn gwerthuso perfformiad aelodau yn rheolaidd o fewn cyd-destun yr amcan y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni.

Nododd ein hasesiad o'r tri maes peilot ar gyfer y dull newydd fod cynigion ar gyfer gwella'n cael eu gweithredu a bod trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor ynghanol cyfnod o drawsnewid wrth iddo weithredu'r trefniadau newydd hyn ym mhob un o'i wasanaethau ac fe gymer amser i'r rhain danategu'r broses o hunanwerthuso. Mae'r trawsnewid yn golygu nad yw'r trefniadau wedi gwreiddio'n llawn eto am fod y Cyngor yn y broses o ddiffinio'i fesurau canlyniadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Rydym yn hyderus y bydd y trefniadau wedi'u llyfnhau erbyn 2014.

## Mae trefn hunanwerthuso'r Cyngor yn dibynnu gormod ar ddangosyddion perfformiad i adlewyrchu perfformiad

Mae'r Cynllun yn dibynnu'n bennaf ar ddangosyddion perfformiad a lefelau cyfartalog trwy Gymru fel cyfeirbwynt ar gyfer disgrifio perfformiad. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio'n briodol ar amcanion gwella ond yn aml, mae'n cyfeirio at ganlyniadau dangosyddion perfformiad fel tystiolaeth o gyflawniad. Mae angen i'r Cynllun gynnwys gwybodaeth o ffynonellau eraill megis perfformiad cyrff cymharol yn y sector cyhoeddus, adolygiadau gan gymheiriaid ac adborth gan randdeiliaid. Mae gwybodaeth ansoddol ar gael mewn rhai meysydd i alluogi'r Cyngor i gyflwyno ystod fwy cytbwys o fesurau a helpu'r aelodau i werthuso cyflawniad dymunol.

## Nid yw Cynllun eleni'n darparu darlun cyson o berfformiad y Cyngor, mae rhai gwerthusiadau'n dda ond mae angen i eraill fod yn fanylach

Mae ansawdd y gwerthusiadau perfformiad y cyflwynwyd adroddiadau yn eu cylch yn amrywio. Ni roddodd y Cynllun eglurhad llawn ynglŷn â'r canlyniadau a gyflawnwyd ac nid oedd peth o'r data a gyflwynwyd yn cysylltu'n eglur â'r amcan a fwriadwyd.

Roedd rhai o'r gwerthusiadau'n dda gydag esboniadau'n rhoi darlun clir o berfformiad. Er enghraifft, roedd y manylion a roddwyd ar gyfer yr amcan gwella 'darparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu' yn amlwg yn dangos nifer o ddangosyddion perfformiad sy'n berthnasol i'r amcan. Roedd y naratif yn rhoi esboniad rhesymol o weithgareddau i gyflawni'r amcan gwella. Mae'r rhain yn cynnwys: gweithredu Strategaeth Ysgolion sy'n canolbwyntio ar Gymunedau; cyflwyno hyfforddwyr dysgu; pecynnau data manwl a ddarperir i bob ysgol a gweithredu rhaglen bwrpasol ar gyfer datblygu arweinyddiaeth. Daeth y naratif i'r casgliad fod yr amcan gwella wedi'i gyflawni.

Nid oedd gwerthusiadau eraill o berfformiad yn cynnig darlun cyn gliried o berfformiad. Er enghraifft, nid yw'r gwerthusiad o berfformiad ar gyfer amcan gwella 'gwella mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol' yn rhoi asesiad cadarn o berfformiad. Mae'r unig ddangosydd perfformiad yn ymwneud â chanran y plant sy'n aelodau o lyfrgelloedd. Nid oedd unrhyw fesurau i asesu cyflawniad unrhyw un o elfennau eraill yr amcan perfformiad. Hefyd, dim ond cyfeirio at aelodau llyfrgelloedd a wna'r naratif o dan y pennawd 'ein perfformiad' ac felly nid yw'n helpu i egluro cyflawniad yr amcan gwella. Mae'r gwerthusiad yn rhoi barn ynglŷn ag a gyflawnwyd yr amcan gwella.

Mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r Cynllun yn gryf: Gwelsom fod dulliau'r Cyngor o gasglu a chyflwyno adroddiadau yn ddibynadwy ac yn gadarn. Fodd bynnag, nid yw'r manylion ategol bob amser yn llifo drwodd i gyhoeddiad y Cyngor.

Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys asesiad o'i berfformiad dros amser ac yn adrodd ar bob dangosydd perfformiad statudol.

Nid yw'r Cynllun yn cymharu perfformiad y Cyngor â pherfformiad cyrff eraill cymharol a fyddai'n helpu i roi darlun mwy cytbwys o berfformiad y Cyngor ac nid yw'n cynnwys disgrifiad penodol o gynlluniau a threfniadau'r Cyngor i wella neu egluro sut y mae'r Cyngor wedi gwerthuso'i berfformiad.

Mae'r Cyngor yn adrodd ar wybodaeth ynglŷn â'i weithgareddau cydweithredu yn ystod y flwyddyn a manteision disgwyliedig cydweithredu. Mae angen iddo ymestyn hyn i egluro diben y cydweithio ac i ba raddau y cyflawnwyd y canlyniadau a fwriadwyd.

### Mae'r Cyngor wedi ceisio gwneud ei gyhoeddiad yn hygyrch i ddinasyddion a rhanddeiliaid ond mae potensial eto i'w hyrwyddo a sicrhau bod modd dod o hyd iddo'n haws ar y wefan

Caiff y cyhoeddiad ei gyflwyno mewn modd hawdd i'w ddarllen, mae ar gael ar y rhyngrwyd ac mae copïau caled ar gael mewn llyfrgelloedd. Mae fersiwn print bras o'r cyhoeddiad ar gael ar gais.

Mae'r Cyngor yn dibynnu ar y rhyngrwyd i wneud yn siŵr fod y Cynllun ar gael i'r cyhoedd ei weld, ond byddai'n rhaid i'r cyhoedd yn gyffredinol chwilio er mwyn dod o hyd iddo. Nid yw hafan gwefan y Cyngor yn tynnu sylw at yr Adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar nac yn darparu dolenni i'r ddogfen, gan olygu ei bod hi'n anodd dod o hyd iddi. Nid yw'r Cyngor wedi marchnata'r cyhoeddiad mor eang ag y gallai fod wedi gwneud, er enghraifft, gallai fod wedi'i hyrwyddo yn y wasg leol er mwyn codi ymwybyddiaeth, a gosod copïau o'r cyhoeddiad yn nerbynfeydd a llyfrgelloedd y Cyngor fel ei bod yn haws i'r cyhoedd ddod o hyd iddo.

Mae'r Cynllun yn cynnwys dolen yn gofyn i'r cyhoedd roi sylwadau ac awgrymu amcanion gwella ychwanegol. Sefydlwyd blwch negeseuon e-bost arbennig i goladu'r negeseuon hyn.

Cynhyrchwyd crynodeb o'r ddogfen ac mae'n cynnwys gwybodaeth gyfyngedig, ond fel gyda'r prif gyhoeddiad, nid yw'n mynd yn ddigon pell i egluro'r sail resymegol dros wella neu i ba raddau y llwyddodd yr Awdurdod i gyflawni.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ni cheir cynigion ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Copi: Carl Sargeant - Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Steve Barry - Rheolwr

Janet Villars - Arweinydd yr Archwiliad o Berfformiad

John Golding - Grant Thornton